**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 15 Chwefror 2022 drwy Zoom</u>**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Elliw Griffith, Phil Roberts, Alan Pritchard

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Martin Jones, Richard Robinson, Haf Williams

**Clerc:** Yn absenoldeb y Clerc, cymerodd y Cynghorydd Meirwen Lloyd y cofnodion

**944. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groesi cynnes i bawb i'r cyfarfod

**945. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**946. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**947. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Ionawr 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**948. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

1) Dywedodd Avril fod cyfieithydd o Cwm y Glo yn rhesymol i gyfieithu cronfa'r "Poor House''. Cytunodd pawb i'r awgrym.

2) Mynegodd Alan Pritchard fodlonrwydd trigolion Dol Afon am y giât yn y Cae Chwarae.

3) Diolchodd Hefin i Cemlyn am sicrhau fod y gwaith wedi ei wneud.

**4)** Coeden Nadolig Llanrug 2022- Llythyr wedi ei anfon at Brifathrawes yr Ysgol Gynradd yn holi oedd bosib lleoli'r goeden ar safle ffrynt yr ysgol.

5) Dywedodd Phil fod llythyr wedi ei anfon at yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn cyfarfod Ionawr o'r Cyngor.

6) Pwyllgor y Fynwent - sylw am gynrychiolwyr o'r fynwent yn dod i gyfarfod y fynwent

7) Dywedodd Hefin ei fod yn bryderus am gyflwr wal Mynwent yr Eglwys wrth iddo fynd heibio heddiw 15/2/2022.

**949. I ystyried cynnwys e-bost a dderbyniwyd gan Mr Gwyndaf Hughes sydd eisoes wedi ei rannu.**

1) Derbyniodd y Cynghorwyr e-bost gan Mr Gwyndaf Hughes ar Chwefror 4ydd
**2)** Anfonwyd yr e-bost at Gynghorau Llanddeiniolen, Llanberis a Llanrug yn mynegi ei bryder am y dyffryn. Nododd Mr Gwyndaf Hughes bryderon a gwaith y cynghorwyr

   Cafwyd ymateb gan Rhian George i adolygiad y dyffryn sef "Ardal Ni '' ar ddulliau i gydweithio ar gyfer y dyfodol.

**3)** Gofynnir i Meirion y Clerc gysylltu gyda Chlerc Llanddeiniolen a Llanberis i drefnu cyfarfod ar y cyd dros Zoom gyda Meleri Davies o "Partneriaeth Ogwen''.

**4)** Gofynnir i'r Cadeirydd gysylltu gyda Mr Gwyndaf Hughes i ddod i gyfarfod y Cyngor ynglŷn â gwaith y Cyngor a'r Cynghorwyr.

.

**950. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Cyngor Gwynedd

Mi fydd y cyngor llawn yn penderfynu faint i godi treth y cyngor yn eu cyfarfod ar y 3ydd o Fawrth. Y tebygrwydd yw y fydd yr argymhelliad yn 2.95%. Eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd, does dim arbedion ychwanegol wedi ei gynnwys yn y gyllideb.

Fel y gwyddoch penderfynodd cabinet Gwynedd i roi diwrnod Gwyl Dewi i ffwrdd iw staff i gyd fel diwrnod ychwanegol. Roedd tri o'r Cynghorwyr yn anhapus hefo hyn ac fe alwyd y penderfyniad i mewn i gael ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio ac Llywodraethu. Penderfynodd y Pwyllgor aros gyda'r penderfyniad gwreiddiol.

Yn Lleol

Fel y gwyddoch rwyf wedi cael trafferth cael ymatebion i lawer o'n ymholiadau gan Cyngor Gwynedd. Dwi'n falch o adrodd fy mod wedi cael ymatebion i lawer erbyn hyn:-

Bydd yr arwydd 30mya yn cael ei dynnu lawr ar geg stad Dolafon, o fewn y 3 wythnos nesaf.

Bydd yr arwydd 30mya ar dop allt Ceunant yn cael ei symud yn uwch i fyny yr allt o fewn 6 wythnos.

Mae'r Cyngor yn mynd i roi mesurydd cyflymder traffig i mewn ar waelod allt Ceunant i gael gwell syniad o'r gor yrru sydd yn digwydd yn y fan yma, cyn rhoi mesurau arafu traffig i mewn. Byddant yn ymgynghori hefo'r trigolion cyn gwneud unrhyw newidiadau.

Pan fydd swyddog gorfodi traffig yn ôl yn ei waith ar ôl cyfnod o salwch byddant yn edrych i ymestyn y cyflymder 40mya tu allan i Cwm y glo i fyny at y cylchdro ger Brynrefail

Mae gwaith yn dal i fynd ymlaen hefo trosglwyddo yr hen ysgol i Menter Fachwen, bydd angen gwneud cais cynllunio am fod newid defnydd o 'adeilad.

**951. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd**

**Cyngor**

Roedd y Pwyllgor Craffu Gofal yn edrych ar wasanaeth therapyddion galwedigaethol ac yn derbyn diweddariad am y datblygiadau yn y gwasanaeth a beth yw'r nod wrth symud ymlaen.
Cawsom gyflwyniad ar yr Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd a Cymru a oedd yn ddarn o waith hynod o fanwl yn dwyn i ystyriaeth yr holl ystod o faterion sydd yn gysylltiedig a llesiant.
Cefais sicrhad y bydd dyletswydd cymdeithasol ac economaidd y cyngor yn plethu drwy'r asesiad, gan nad ydi cefndir cymdeithasol yn nodwedd sydd wedi ei warchod o dan y ddeddf cydraddoldeb.
Bu trafod mawr wrth gwrs ar effeithiau Covid ar y rhai a oedd eisoes yn fregus a beth y gellir ei wneud i lareiddio peth ar yr effeithiau rheiny wrth inni ddod allan o'r pandemig, gobeithio.

Yn y Pwyllgor Iaith cawsom adroddiadau ar gynllun hybu'r Gymraeg ym meysydd yr Adran Addysg; Cefnogaeth Gorfforaethol a Tai ac Eiddo. Cawsom gyfle i roi sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai a Cymunedau Cymraeg, a'r pryder yw bod yr ymgynghoriad wedi dod braidd yn rhy fuan inni fedru asesu gwir effaith y pandemig ar ein cymunedau ac felly ar yr iaith.

Cafwyd cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Craffu Gofal a chyflwyniad gan Jo Whitehead o'r Bwrdd Iechyd a chyfle i holi cwestiynau wrthi am unrhyw faterion o bryder. Llongyfarchwyd y Bwrdd Iechyd ar lwyddiant y rhaglen frechu.

Cawsom gyfle i ymuno â Craig ab Iago yn y Fforwm Tai er mwyn derbyn diweddariad a chyflwyniad ar gynllun Tŷ Gwynedd - sef creu tai braf i bobol nad ydynt yn gymwys am dŷ cymdeithasol ond sydd ddim yn gallu cystadlu ar y farchnad tai agored chwaith. Cafwyd diweddariad hefyd ar y cynllun Siop Un Stop i dai ble bydd modd gweld holl stoc tai eich ardal a gweld lle mae eich cais am dŷ arni yn y rhestr aros. Mae anogaeth hefyd i unrhyw un sydd â thŷ preifat ar werth i gysylltu â'r cyngor rhag ofn bod diddordeb ei brynu.

**Ward**

Fel rhan o fy nhrafodaethau gyda'r Adran Amgylchedd am bryderon traffig a pharcio Llanrug ac am yr hen fater o ddiogelwch y sgwâr, cefais gyfarfod gyda swyddog am 3.15 y prynhawn ar y sgwâr, pan roedd yr ardal honno ar ei phrysuraf. Nodwyd yn syth bod peryg i blant wrth iddynt groesi o gyfeiriad Brynrefail am y Spar gan fod rhaid iddynt groesi tri llif traffig mewn man ble nad oes gwelededd

da. Nodwyd hefyd ei bod yn beryg i gerddwyr ddod rownd ymyl yr hen bost gan bod llwybr traffig i'r rhai sydd am deithio o Ffordd yr Orsaf i lawr am Brynrefail, a does dim pafin na fawr o le i gerddwyr. Bwriedir cymryd camau i ddiogelu'r sgwâr o fewn y chwe mis nesaf. Derbyniwyd bod angen peintio llinellau melyn i ddynodi'r safle bws ger siop sglodion Tegfan fel nad ydi ceir yn parcio ar draws y safle bws gan ei gwneud yn beryg i'r rhai sydd yn aros. Mae bwriad hefyd i ail-beintio llinellau y safle bws wrth Corlan y Rhos hefyd. Mae bwriad i gyflawni'r pethau hyn cyn diwedd mis Mawrth. O ran y trafferthion ehangach yn Ffordd yr Orsaf cawsom sgwrs am y gwahanol syniadau sydd wedi eu rhoi gerbron dros y blynyddoedd, gan gynnwys system unffordd. Y bwriad yw i fynd nol at yr adroddiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i weld pa syniadau sydd yn gymwys i ymgynghori arnynt ymhellach.

**952. I ystyried ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

8 cynghorydd oedd yn bresennol heno. Gwnaeth un ymatal oherwydd nid oedd wedi darllen y ddogfen ddigon trwyadl i roi sylwadau ac i bleidleisio ar Ymgynghoriad y Llywodraeth

- Atebwyd pob cwestiwn gan y 7 cynghorydd oedd yn bresennol yn unfrydol
- Darllenwyd pob cwestiwn gan Hefin y Cadeirydd
- C1 ateb Cytuno
- C2 ateb Cytuno
- C3 ateb Cytuno
- C4 ateb Meirion wrando ar ymateb Avril ar ran y cyngor
- C5 ateb Cytuno
- C6 ateb Cytuno
- C7 ateb Cytuno
- C8 ateb Na ddylai
- C9 ateb Ydi
- C10 ateb Ydym
- C11 ateb
  Ydw . Mae canlyniadau yn drech.
  Ar draws Cymru mae cymunedau yn anfforddiadwy i brynu ac i rentu
  Ni fydd cymunedau byw a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol os na fydd y mesurau cynllunio yn cael eu cyflwyno
  Mae yn annheg bod cymunedau yn mynd yn barciau gwyliau ac yn marw
  O ran tystiolaeth, mewn ardaloedd lle ceir nifer uchel o ail dai y ceir y gostyngiad uchaf yn y nifer i siaradwyr Cymraeg. Yno hefyd ceir prisiau tai uchel.
  Canlyniad ardaloedd ar draws Cymru yw colli ysgol.
- C12 ateb
  Cadarnhaol
  Yr economi yn gwella
  Trigolion lleol gyda gwell cyfle i fyw yn eu bro
- C13 Dim angen ateb
- C14 Dim angen ateb
- C15 ateb
  Perygl i'r Gymraeg ddiflannu am byth heb fod mesurau yn cael eu cyflwyno i reoli ail gartrefi

Yr iaith yn crebachu lle mae tiriogaeth y Gymraeg yn iaith fyw naturiol
Cynyddu effaith cadarnhaol drwy fonitro'r mesurau yn effeithiol ac yn ogystal fe ddylid gan y Llywodraeth reoli Treth Tir i reoli pryniannau ail dai

- C16 ateb Llacio rheolau cynllunio ar gyfer adfeilion tai i bobl ifanc adnewyddu ar gyfer tŷ/cartref

**953. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/1193/23/RA
**Math o Gais:** Caniatâd ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod
**Bwriad:** Rhyddhau amod 6 (tirlunio) a 9 (dwr wyneb) ar ganiatâd rhif C19/1065/23/LL.
**Ymgeisydd:** Mr a Mrs Daniel & Heather Hughes
**Asiant:** BDS Gwynedd BDS Gwynedd
**Cyfeiriad:** Parc Isaf Tai Rhythallt, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AR
**Cyfeirnod Grid:** 254215.99, 363342.25
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

Penderfynwyd:

Cyngor Cymuned yn peidio ymateb, diffyg arbenigedd gennym gan adael i'r awdurdodau perthnasol benderfynu

b) **Rhif y Cais:** C21/1132/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr.
**Ymgeisydd:** Mr Tom Williams
**Asiant:** Mr Gwyn Pritchard (Ty Newydd Cyf)
**Cyfeiriad:** Pen Y Graig Lôn Ceunant, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4SA
**Cyfeirnod Grid:** 253086.69, 361239.85
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 15 Mawrth 2022